CYFRES B2

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon I

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

Stori I Iesu'n troi'r dŵr yn win.

Ioan 2: I-II

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu mewn priodas

Roedd Iesu a'i ddisgyblion a Mair, ei fam, wedi cael mynd i briodas mewn tref fach o'r enw Cana. Roedd popeth yn mynd yn dda, ond yna fe wnaeth y gwin orffen.

Llanwch y bylchau.

Aeth Iesu i b _ i _ d _ s.
Roedd M _ i _ ei fam yno hefyd.
Doedd ganddyn nhw ddim digon o w _ n.

Dywedodd Iesu wrth y gweision am lenwi chwech o lestri mawr â dŵr. Roedd yn waith caled ond fe wnaethon nhw wrando ar Iesu. Fe wnaethon nhw lenwi'r llestri i'r top! Pan wnaethon nhw yfed y dŵr o'r llestri, roedd wedi troi'n win! Roedd pawb yn hapus eto.
Lliwiwch y ddau air a'r llun.

Fe wnaeth y gweision drystio **Iesu ac** ufuddhau **iddo ac yna roedd popeth yn iawn!**

Mae'n rhaid i ni drystio Iesu ac ufuddhau iddo hefyd!

Enw

DARLLENWCH
Ioan 4: 46-54

Mae'r stori hon yn sôn am:
Gallu Iesu

Stori 2 Iesu'n gwella bachgen sâl.

Roedd rhyw fachgen bach yn sâl. Roedd ei fam a'i dad yn meddwl ei fod yn mynd i farw. Aeth ei dad i chwilio am Iesu a oedd mewn tref ymhell i ffwrdd.

Daeth y dyn o hyd i Iesu a gofyn iddo ddod adref gydag ef i weld ei fab. Ond dywedodd Iesu wrtho am fynd adref ac y byddai ei fab yn well. Credodd y dyn beth oedd Iesu wedi'i ddweud ac aeth adref.

Ticiwch ✓ y frawddeg sy'n GYWIR a rhowch groes ✗ ar ôl y frawddeg sy'n ANGHYWIR.

Cariodd y dyn y bachgen bach at Iesu. .....
Credodd y dyn beth oedd Iesu'n ei ddweud. .....

Pan oedd y dyn ar ei ffordd adref, daeth ei weision i gwrdd ag ef. Roedd ganddyn nhw newyddion da. Roedd y bachgen wedi gwella.



"Faint o'r gloch wnaeth e wella?" gofynnodd y tad.
"Ddoe, am un o'r gloch," ddywedon nhw.

"Dyna pryd y dywedodd Iesu wrtha i y byddai'n gwella," meddai'r tad. Roedd y tad yn gwybod nawr mai Iesu oedd Mab Duw.



Mae'r stori hon yn dangos y gallwn ni drystio Iesu.

Tynnwch lun y bys bach ar y cloc i ddangos pryd y gwnaeth Iesu wella'r bachgen. Lliwiwch y cloc hefyd.

Enw _____

DARLLENWCH
Marc 10: 46-52

Mae'r stori hon yn sôn am:
Iesu'n gwella dyn dall

Stori 3 Iesu a Bartimeus

Roedd Bartimeus yn byw yn Jericho. Roedd e'n ddall ac roedd e'n eistedd wrth ochr y ffordd yn gofyn i bobl am arian.



Un diwrnod, clywodd fod Iesu'n dod i'r dref.

Roedd yn gwybod y gallai Iesu wneud iddo weld. Dechreuodd weiddi'n uchel:

"Iesu, Fab Dafydd, helpa fi."

Dywedodd rhai pobl wrtho am fod yn dawel. Ond roedd Bartimeus yn gweiddi'n uwch.

Stopiodd Iesu a gofyn am gael gweld Bartimeus. Taflodd Bartimeus ei got i ffwrdd a dod at Iesu. "Beth wyt ti eisiau i mi ei wneud i ti?" gofynnodd Iesu.

"Rwy eisiau gweld," atebodd Bartimeus. "Dos," meddai Iesu. "Gei di weld am dy fod ti wedi credu ynof i." Yna, roedd Bartimeus yn gallu gweld. Dechreuodd ddilyn Iesu ar hyd y ffordd.

Dewiswch un o'r geiriau hyn i'w roi ym mhob brawddeg.

Bartimeus **y bobl** **Iesu**

Dywedodd _____ wrtho am fod yn dawel.
Gwnaeth _____ wella llygaid Bartimeus.
Pan oedd _____ yn gallu gweld, dechreuodd ddilyn Iesu.

Ydych chi'n credu yn Iesu ac yn ei ddilyn?

Enw

DARLLENWCH
Luc 17: 11-19

Mae'r stori hon yn sôn am:
Dweud "Diolch" wrth Iesu.

Stori 4 Iesu'n iacháu deg dyn sâl.

Un diwrnod, roedd Iesu'n mynd i mewn i bentref. Daeth deg dyn sâl i gwrdd ag ef. Roedd salwch cas ar eu croen ac felly doedden nhw ddim yn gallu byw gyda'u teuluoedd rhag ofn iddyn nhw fynd yn sâl hefyd. Doedd dim llawer o bobl yn gwella o'r salwch hwn. Ei enw oedd "y gwahanglwyf".



Pan welson nhw Iesu, dyma nhw'n gweiddi, "Iesu, feistr, helpa ni." Dywedodd Iesu wrthyn nhw am fynd i'w dangos eu hunain i'r offeiriaid. Aethon nhw ar unwaith. Wrth iddyn nhw fynd, digwyddodd gwyrth. Cafodd y deg dyn eu gwella!

Roedden nhw'n hapus iawn eu bod wedi gwella ond, gwaetha'r modd, dim ond un ohonyn nhw aeth yn ôl i ddweud "Diolch" wrth Iesu. Pan aeth y dyn hwnnw ato, gofynnodd Iesu "Lle mae'r lleill?" Roedd Iesu'n falch bod y dyn wedi dod yn ôl i ddiolch iddo. Roedd y dyn hwn yn dod o wlad wahanol i Iesu a'r naw dyn arall. Samariad oedd e. Roedd yn fwy diolchgar na'i naw ffrind.

Lliwiwch y rhif cywir i ateb y cwestiynau.

Sawl dyn gafodd eu gwella?

1 0 7 1

Sawl dyn ddaeth nôl i ddweud diolch?

1 3 9

Mae'n rhaid i ninnau hefyd wrando ar Iesu a diolch iddo am fod yn ffrind i ni.

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120